



Pythefnos o Ffilm


**INTO
FILM**

Mae ein hadnoddau wedi'u dylunio i'w defnyddio gyda ffilmiau dethol, sydd ar gael am ddim i glybiau fan hyn: www.filmclub.org/clubs

intofilm.org

Into Film yw enw masnachol Film Nation UK. Rhif elusen cofrestredig 1154030.





Gwybodaeth am yr Adnodd

Dylunwyd yr adnodd hwn i gynorthwyo athrawon Cyfnod Allweddol 2 i gynnal cyfres o weithgareddau'n ymwneud â ffilm dros gyfnod o bythefnos. Byddai Pythefnos o Ffilm yn weithgaredd delfrydol ar gyfer diwedd tymor ond gallai gael ei gynnal ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn – gallai fod yn un sesiwn y dydd neu'n ddiwrnodau mwy dwys o addysgu drwy ffilm ac am ffilm.

Cafodd yr adnodd ei greu i fod yn offeryn arweiniol i athrawon sy'n dymuno dechrau defnyddio ffilm yn yr ystafell ddosbarth ac elwa ar fanteision defnyddio ffilm i gefnogi amcanion dysgu a chwricwlwm allweddol o ran llythrennedd a chymhwysedd digidol. Mae ffilm yn offeryn pwerus y mae modd ei ddefnyddio i gefnogi'r maes dysgu Celfyddydau Mynegiannol o fewn cwricwlwm newydd Cymru. Mae gweithgareddau Pythefnos o Ffilm hefyd yn gallu helpu ysgolion i gwrdd a 4 diben y cwricwlwm newydd.

Diolch i Lysgenhadon Addysg Into Film Cymru, a fu'n addysgu gyda ffilm ac am ffilm, ac wedi profi effaith defnyddio ffilm ar gyrhaeddiad addysgol ac ymgysylltiad disgyblion, am eu help yn datblygu'r adnodd hwn i sicrhau ei fod yn darparu gweithgareddau ymarferol ond cyffrous i ysbrydoli ac ysgogi'r addysgwyr a'r dysgwyr sy'n ei ddefnyddio.

Mae Pythefnos o Ffilm wedi'i rannu'n chwe adran sydd wedi'u diffinio gan athrawon ar sail eu harferion yn yr ystafell ddosbarth:


- Darogan a Dadansoddi
- Dod i gasgliad
- Darllen a Deall
- Ysgrifennu
- Cynllunio a Chyflwyno
- Creu ffilm a Dathlu



Fe'ch cynghorir i gyflwyno pob un o'r chwe adran yn eu trefn, ond mae pob adran yn cynnwys sawl gweithgaredd sy'n rhoi rhyddid i'r athrawon ddethol a dewis ac addasu gweithgareddau fel eu bod yn addas i'w gofynion dysgu cyffredinol a darparu tasgau wedi'u gwahaniaethu i'r disgyblion. Lluniwyd y gweithgareddau hyn i'w defnyddio gydag unrhyw ffilm fer ac rydym yn annog athrawon i ddewis ffilmiau sy'n addas ar gyfer yr hyn maen nhw'n ei addysgu, eu themâu neu'u testunau. Mae'r adnodd yn anelu i gwrdd a gofynion addysgol o fewn y Fframwaith Llythrennedd Cenedlaethol (fFLIC) a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol (FfCD).

Caiff ei argymhell bod yr un ffilm yn cael ei defnyddio ar draws nifer o weithgareddau er mwyn cynnig profiad dysgu dyfnach.

Gall athrawon ddod o hyd i rai ffilmiau addas yng nghatalog Into Film – www.intofilm.org/films – neu drwy fynd i sesiwn hyfforddi Into Film lle darperir y cyfrinair ar gyfer ein sianel Vimeo (www.intofilm.org/training).



Gellir dod o hyd i ffilmiau addas drwy fynd i gatalog Into Film: www.intofilm.org/films/filmllst/38

CYN DECHRAU AR Y GWEITHGAREDDAU GYDA'R FFILM

Mae'n bwysig iawn nad yw'r plant yn gwybod teitl y ffilm nac yn gweld unrhyw luniau sy'n ymwneud â'r ffilm – bydd hyn yn difetha'r gweithgareddau darogan. Gwnewch yn siŵr nad yw enwau dogfennau/ffeiliau yn cynnwys enw'r ffilm!

Ynglŷn ag Into Film


Elusen addysgol yw Into Film sy'n rhoi ffilm wrth galon datblygiad addysgol, diwylliannol a phersonol pobl ifanc.

Mae dros hanner ysgolion Prydain yn ymwneud â'n rhaglen o Glybiau Into Film, dangosiadau sinema arbennig, ac adnoddau a hyfforddiant i gynorthwyo'r addysgu yn yr ystafell ddosbarth. Yn ogystal â chynnwys cyfoethog ar-lein i gynulleidfaoedd ifanc, mae hyn yn cynnig cyfleoedd llawn ysbrydoliaeth i rai 5-19 oed i ddysgu gyda ffilm ac am ffilm, a datblygu angerdd at sinema.

Caiff gwaith Into Film ei gynorthwyo'n bennaf gan y BFI drwy'r Loteri Genedlaethol, a chan y diwydiant ffilm drwy Cinema First. Mae Into Film Cymru yn cefnogi addysgwyr ledled Cymru ac yn ategu ethos cwricwlwm newydd Cymru o gynorthwyo pobl ifanc Cymru i fod yn fyfyrwyr galluog, creadigol a hyderus. Mae gwasanaethau dwyieithog Into Film Cymru, sydd ar gael am ddim, wedi'u teilwra i gyd-fynd ag anghenion diwylliannol ac addysgol ysgolion yng Nghymru, wrth iddynt esblygu ac addasu i gofleidio'r cwricwlwm newydd. I gael gwybod mwy am yr hyn sydd gan Into Film Cymru i'w gynnig i ysgolion, ewch i www.intofilm.org/cymru

Os hoffai athrawon gael mwy o gymorth neu arweiniad ar unrhyw agwedd ar yr adnodd, cysylltwch â cardiff@intofilm.org.

INTO FILM



Darogan a Dadansoddi

Dangos clip byr o'r ffilm – sain yn unig, dim delweddau

Amcanion dysgu'r cwricwlwm:

- Defnyddio tystiolaeth i gynorthwyo wrth ddarogan (amcan dysgu allweddol)
- Gwrando'n ofalus a chyfrannu'n gytbwys at drafodaethau grŵp (FfLIC)
- Datblygu'r defnydd o eirfa anturus a dychmygus (FfLIC)
- Arbrofi â strwythur brawddeg (FfLIC)
- Rhannu syniadau ar y cyd ar-lein gan ymateb i ysgogiad (FfCD)
- Dethol a defnyddio adnoddau digidol priodol i fynegi syniadau (amcan dysgu allweddol)
- Dethol a defnyddio adnoddau TG (neu offer a chymwysiadau) sydd fwyaf addas i ddiwallu anghenion y dasg (TGCh)

Amcanion dysgu ffilm:

- Cydnabod pwysigrwydd sain mewn ffilm
- Dangos dealltwriaeth o leoliad, cymeriadau a stori mewn ffilm
- Datblygu dealltwriaeth o'r broses ddychmygus sy'n rhan o greu ffilm

Taflenni gwaith

Sai'n gweld (tudalen 20)

Taflen waith synhwyrâu cymeriadau (tudalen 26)

Gweithgareddau

1. Gofynnwch i'r dysgwyr pa ffilmau maen nhw wedi gweld a pha fath o ffilmau maen nhw'n hoffi. Efallai y byddan nhw'n cyfeirio at *genre*, stori neu gymeriadau. Defnyddiwch y cyfle hwn i gyflwyno cysyniad *genre*. Dylai'r dysgwyr allu nodi pa fath o ffilmau maen nhw'n eu hoffi a pham.

Efallai yr hoffwch gymryd golwg ar yr adnodd sy'n edrych ar gam Datblygu yn y broses o greu ffilm, sydd ar gael ar wefan Into Ffilm www.intofilm.org/resources/1010 (efallai y dymunwch droi at dudalen 9 yn benodol - adnodd Saesneg yw hwn).

2. Dewiswch glip o'r ffilm sy'n cynnwys sain a dim deialog, a chwaraewch hwn heb unrhyw luniau. Mae gan Into Film Cymru rai enghreifftiau ar gael – cysylltwch i ofyn. Rhannwch y dosbarth yn grwpiau a dwedwch wrthynt am feddwl am y canlynol wrth i'r ffilm chwarae:

- **Grŵp 1: Cymeriadau** – pwy allai'r cymeriadau fod? Beth sy'n gwneud ichi feddwl hynny?
- **Grŵp 2: Lleoliad** – ble allai'r ffilm fod wedi'i gosod/lleoli? Lle, amser y flwyddyn? Beth sy'n gwneud ichi feddwl hynny?
- **Grŵp 3: Stori** – beth sy'n digwydd? Beth sy'n gwneud ichi feddwl hynny?



Mae Adnodd Llythrennedd y 2S, 2LI, 2C – www.intofilm.org/resources/127 yn offeryn defnyddiol i arwain y gweithgaredd hwn.

Gwnewch yn siŵr bod yr holl drafodaethau'n cyfeirio'n ôl at y clip a'r synau sydd ynddo. Gallwch ddefnyddio taflen waith **Sai'n gweld** ar **dudalen 21** yr adnodd hwn.

3. Gall disgyblion weithio mewn grwpiau bach naill ai i luniadu neu greu map meddwl o'r hyn maen nhw'n credu sy'n digwydd yn y ffilm. Efallai y byddwch yn dymuno rhoi un o'r 2S, 2LI, 2C i bob grŵp i wrando amdano.
4. Trowch yn ôl at y luniadau a'r mapiau meddwl o'r gweithgaredd blaenorol a gofynnwch i un dysgwr o bob grŵp grynhoi'r hyn maen nhw'n meddwl sy'n digwydd yn y ffilm.
5. Torrwch lun llonydd o'r ffilm yn ddarnau a'u defnyddio mewn gêm o basio'r parsel. Bydd y disgyblion yn cymryd eu tro i ddadlapio un haen ar y tro i ddatgelu darn o'r llun. Pan fydd y cyfan wedi'i ddadlapio, bydd angen iddyn nhw ddisgrifio'r darn sydd ganddyn nhw a gwneud awgrymiadau ynglŷn â ffilm am beth yw hi. Gall y dysgwyr ysgrifennu darn creadigol byr am bob llun gan ffocysu ar y 2S, 2LI a 2C ond yn benodol drwy ganolbwyntio ar y cymeriadau a'r lleoliadau ym mhob llun.

Aps i'w defnyddio gyda'r adnodd hwn

	(iOS)	Android
 Shadow Puppets	✓	Engheifftiau eraill: Video Editor
 Strip Designer	✓	Engheifftiau eraill: Comic Strip It!
 Book Creator	✓	Engheifftiau eraill: Book Writer Free
 Garageband	✓	Engheifftiau eraill: FL Studio Mobile Band Live Rock
 Wordfoto	✓	Engheifftiau eraill: Typo Effect Photo Editor
 Wordle		Ar-lein



6. Defnyddiwch bropiau a rhowch gliwiau am y ffilm o sach bropiau. Bydd y disgyblion yn rhannu'u syniadau am ffilm am beth allai fod. Gallai hyn gael ei wneud ar ffurf gweithgaredd 'cyffwrdd / dim edrych' lle mae'n rhaid iddyn nhw'n gyntaf ddyfalu beth yw'r prop ac wedyn cysylltu hynny â'r ffilm. Gallai'r disgyblion weithio mewn paruau, gydag un yn disgrifio'r prop a'r llall yn dyfalu beth ydyw, ac ysgrifennu'r hyn maen nhw'n meddwl.
7. Cwblhewch jig-so o gliw geiriau sy'n cynnwys geirfa allweddol a allai ddisgrifio'r ffilm neu fod yn ymwneud â'r ffilm.
8. Mewnforiwch lun o'r cliw geiriau i ap *Shadow Puppets* er mwyn i'r dysgwyr adrodd eu syniadau.
9. Rhowch eiriau allweddol i'r disgyblion sy'n gysylltiedig â'r ffilm a gofynnwch iddyn nhw ddod o hyd iddyn nhw yn y geiriadur. Pwy bynnag sy'n dod o hyd iddo gyntaf sy'n darllen y diffiniad.
10. Dangoswch restr o agoriadau adferfol ar y bwrdd a gofynnwch iddyn nhw a allan nhw feddwl am ragor. Ychwanegwch yr awgrymiadau isod at yr hyn sydd ar y bwrdd.

Gan bwyll

Yn gyflym

Yn sydyn

Yn iasol

Yn llawn cyffro

Heb smic

Yn uchel

Yn rhyfeddol

Bydd yn rhaid i'r dysgwyr ysgrifennu brawddegau i ddisgrifio'r hyn maen nhw'n meddwl sydd wedi digwydd yn y ffilm ar sail y clip a glywsant.

11. Nesaf, byddan nhw'n ysgrifennu brawddeg yn darogan beth fydd yn digwydd nesaf, gan ddefnyddio adferfau unwaith eto.
12. Gan ddefnyddio'r holl dystiolaeth sydd ganddyn nhw hyd yma, bydd angen i'r dysgwyr ysgrifennu beth maen nhw'n meddwl yw enw'r ffilm. Syniad ar gyfer gweithgaredd ymestynnol fyddai gwneud clip hysbysebu (trailer) neu glodrestr (credits) agoriadol i'r ffilm ar ap fel *iMovie*.
13. Gwnewch weithgaredd Sai'n gweld gyda rhywfaint o gelf wedi'i gynnwys. Bydd un dysgwr yn gwylio'r clip ac yn disgrifio'r hyn mae'n gweld i'r llall. Bydd y llall yn lluniadu'r hyn mae'n meddwl sy'n digwydd. Maen nhw wedyn yn ail-wylio'r clip gyda'i gilydd. Gellir addasu'r dasg yma a'i wneud yn un ysgrifennu wrth gael y dysgwyr i ysgrifennu brawddegau i ddisgrifio dechrau'r ffilm.
14. Gan ddefnyddio llun llonydd o'r ffilm, datgelwch y llun fesul sgwâr, gan gynnal trafodaeth am ffilm am beth allai fod, gan ganolbwyntio ar gymeriad, lleoliad a stori.





Dod i Gasgliad

Defnyddio darn byr o'r ffilm yn unig

Amcanion dysgu'r cwricwlwm:

- Defnyddio tystiolaeth i ddod i gasgliadau (Amcan Dysgu Allweddol)
- Canfod cysylltiadau ac ystyr nad ydynt yn cael eu nodi'n glir yn seiliedig ar y ffilm (FfLIC)
- Datblygu syniadau ac adeiladu ar farn eraill mewn trafodaethau grŵp (FfLIC)
- Datblygu dealltwriaeth o hawliau a chaniatâd digidol (FfCD)

Amcanion dysgu ffilm:

- Canfod ystyr yn seiliedig ar lun neu effaith sain benodol
- Dod i gasgliad ynglŷn â pham fod rhywbeth wedi digwydd yn seiliedig ar wybodaeth am y ffilm
- Dod i gasgliad ynglŷn â'r hyn sydd wedi dylanwadu ar deimladau, emosiynau neu ysgogiadau cymeriad o wybodaeth am y ffilm.

Taflenni gwaith



Dywed wrthyf (tudalen 23)

Taflen waith ditectif (tudalen 24)

Echel emosiynau (tudalen 25)

Gweithgareddau

1. Gan ddefnyddio rhan o'r ffilm nad yw'r dysgwyr wedi'i gweld, dewiswch lun llonydd o'r ffilm sy'n cynnwys gwrthrychau perthnasol y gallai'r dysgwyr ddod i gasgliadau yn eu cylch. Gofynnwch iddyn nhw astudio'r llun a rhestru beth maen nhw'n gallu gweld ar **daflen waith Dywed wrthyf** ar **dudalen 23**.
2. Gall y dysgwyr ystyried beth yw tystysgrif y ffilm – ar sail eu canfyddiadau yn unig. Beth am wneud cwis 'Dyfala'r tystysgrif' drwy ddefnyddio llun llonydd o ffilm neu arth ddangos hysbys (trailer) y ffilm, beth am wneud papur igam-ogam i ddyfalu y tystysgrif ac fel ysgogiad am drafodaeth am y peth.
3. Bydd y dysgwyr yn gweithio mewn timau i holi ei gilydd ynglŷn â'r hyn maen nhw'n gwybod am y ffilm hyd at bwynt penodol. Mae'n rhaid iddyn nhw roi tystiolaeth pam eu bod nhw'n meddwl yr hyn maen nhw'n meddwl. Gall hyn gael ei wneud drwy chwarae rôl fel gweithgaredd ditectif gan ddefnyddio **taflen waith Ditectif** ar **dudalen 24** lle mae'n rhaid iddyn nhw ddangos pa gliwiau sydd ganddyn nhw.
4. Gofynnwch i'r dysgwyr ysgrifennu ychydig frawddegau neu baragraff am yr hyn maen nhw'n ei gofio o'r olygfa yn y llun llonydd, a ffilm am beth yw hi yn eu barn nhw. Bydd hyn yn dangos eu 'cof' o'r digwyddiad ac yn rhoi'r cyfle iddyn nhw nodi 'tystiolaeth'.
5. Rhannwch y dosbarth yn ddau. Bydd un hanner yn gwylio clip o'r ffilm ar bwynt tyngedfennol tra bo'r gweddill yn aros y tu allan. Bydd yn rhaid i'r disgyblion a wylodd y clip actio neu roi cliwiau i'r lleill, a bydd y lleill wedyn yn dyfalu beth sy'n digwydd nesaf, neu ffilm am beth yw hi.
6. Gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn grwpiau i drafod gwahanol emosiynau fesul bwrdd. Defnyddiwch ysgogiadau neu luniau sy'n dangos gwahanol emosiynau'r cymeriadau yn y ffilm a gofynnwch i'r plant esbonio'r emosiwn a sut maen nhw'n gwybod bod rhywun yn teimlo fel hynny.
7. Crëwch luniau llonydd o ddau gymeriad gwahanol iawn yn y ffilm. Gofynnwch i'r dysgwyr greu Diagram Venn gan ysgrifennu'r elfennau sy'n debyg ac yn wahanol rhwng y cymeriadau. Dylent drafod golwg, mynegiant ac emosiynau.
8. Bydd y dysgwyr yn ysgrifennu am y cymeriadau. Mae modd gwahaniaethu'r gweithgaredd hwn:
 - Ysgrifennu brawddegau llawn am bob cymeriad
 - Ysgrifennu elfennau sy'n debyg ac yn wahanol.




9. Gwylwch y ffilm hyd nes bod digwyddiad tyngedfennol yn digwydd. Esboniwch y byddan nhw'n plotio emosiynau'r prif gymeriad yn y ffilm hyd yma gan ddefnyddio **templed Echel emosiwn** ar **dudalen 25**. Gofynnwch iddyn nhw gyflwyno i'r dosbarth i esbonio eu syniadau.

I ddysgwyr sydd ag anghenion cymorth ychwanegol, gallech:

- ddefnyddio tri gwenoglun
- neu gofyn iddyn nhw roi marc allan o ddeg ar wahanol adegau yn y ffilm

10. Dangoswch olygfa lle mae cymeriad yn wynebu cyfyng-gyngor neu mae ganddo/ganddi benderfyniad pwysig i'w wneud. Crëwch 'dwnnel y cydwybod' o ddisgyblion bob ochr, ac wrth i un dysgwr gerdded drwy'r twnnel, bydd eu cyd-ddisgyblion yn cynnig cyngor iddynt ar beth i'w wneud. Bydd y naill ochr a'r llall yn cynrychioli syniadau o'r naill ochr a'r llall i'r ddadl neu benderfyniad a bydd y gweithgaredd yn digwydd ar ffurf dadl. Bydd angen iddyn nhw ddarparu'r rhesymeg y tu ôl i'w cyngor, gan ysgrifennu eu dadleuon 'o blaid' neu 'yn erbyn' ar sail ymchwil ar y sefyllfa o gyfyng-gyngor. Gallai hyn gael ei ymestyn i fod yn ymarferiad drama.
11. Defnyddiwch sgrin werdd i ffilmio'r plant yn siarad fel maen nhw yw'r cymeriad ac wedyn golygwch hyn i roi eu ceg ar y cymeriad fel ei fod yn edrych fel mai'r cymeriad sy'n siarad neu'n meddwl.
12. Gan ddefnyddio gwybodaeth a thystiolaeth maen nhw wedi'u casglu o'r hyn a welsant yn y ffilm hyd yma, mae'n rhaid i'r dysgwyr benderfynu lle maen nhw'n meddwl mae'r ffilm wedi'i gosod a llunio adroddiad ar hynny. Gallai hyn gynnwys tystiolaeth i gefnogi eu syniadau. Gallan nhw edrych ar-lein neu mewn llyfrau i ddod o hyd i luniau a gwybodaeth i ategu hyn.





Darllen a Deall

Defnyddio darn byr o'r ffilm yn unig
(defnyddio yr un clip a'r adarn Darogan (ond gyda'r delweddau))

Amcanion dysgu'r cwricwlwm:

- Dangos dealltwriaeth o'r prif syniadau a'r manylion sylweddol mewn testun/ffilm (FfLIC)
- Dangos dirnadaeth drwy roi digwyddiadau mewn trefn gywir (amcan dysgu allweddol)
- Arbrofi â geirfa a strwythur brawddeg i greu diddordeb ac effaith (FfLIC)
- Cyfuno testun a delweddau i ddangos dirnadaeth o'r prif syniadau mewn ffilm (FfCD – i ddiben)
- Rheoli sut mae ffeiliau a ffolderi o waith ar-lein yn cael eu storio (FfCD – profi eu bod yn defnyddio syniadau / gwaith ar y cyd ar-lein).

Amcanion dysgu ffilm:


- Deall pwysigrwydd lleoliad mewn ffilm
- Cydnabod pwysigrwydd sain yn y modd y mae stori'n cael ei datblygu mewn ffilm
- Nodi sut mae cyfarwyddwr wedi datblygu'r cymeriadau a'r stori mewn ffilm

Taflenni gwaith

Rôl ar y Wal (tudalen 22)

Gweithgareddau


1. Gwylwch y clip o'r ffilm o'r gweithgaredd Sai'n gweld yn yr adran Darogan ond gyda'r llun ymlaen. Gofynnwch i'r disgyblion sut mae hyn yn perthyn i'r hyn wnaethon nhw ddarogan mewn sesiynau blaenorol.
2. Paratowch rhwng chwe i ddeuddeg o luniau llonydd o'r cyflwyniad i'r ffilm gan gynnwys rhannau maen nhw wedi'u gweld yn barod a rhan o'r hyn sydd i ddod nesaf.
3. Gosodwch luniau llonydd y stori yn eu trefn yn ffisegol, gan ddefnyddio cysyllteiriau amser fel 'yn gyntaf', 'wedyn' ac 'yn olaf'. Heriwch nhw i ddefnyddio nifer benodol o gysyllteiriau.
4. Gofynnwch i'r grŵp ailadrodd y stori a grëwyd ganddynt. Gosodwch y lluniau llonydd ar y bwrdd, a chan weithio gyda'r dosbarth cyfan, ysgrifennwch frawddegau ar gyfer pob llun (cyd-ysgrifennu).
5. Defnyddiwch ap *Strip Designer* lle gall plant osod lluniau llonydd o'r ffilm yn y drefn gywir. Gall lluniau gael eu cadw ar rôl y camera a'u hargraffu fel tystiolaeth. Defnyddiwch lai o luniau llonydd ar gyfer plant sydd ag AAA.
6. Defnyddiwch *Book Creator* neu ap tebyg i dynnu lluniau o'r llun llonydd a recordio naratif drosto i greu eu stori.
7. Dangoswch lun llonydd o un o'r cymeriadau yn eich ffilm a dwedwch wrth y dysgwyr eich bod am eu disgrifio. Defnyddiwch ansoddeiriau i ddisgrifio'r cymeriad a ddewiswyd, a nodwch nhw e.g. hapus, doniol, cas.
8. Rhannwch luniau llonydd o'r cymeriadau. Gofynnwch i'r dysgwyr ysgrifennu geiriau i ddisgrifio'r cymeriad hwnnw. Defnyddiwch daflen waith **Rôl ar y wal** ar **dudalen 22** i archwilio'r cymeriad yn fwy manwl gan gynnwys nodi ei deimladau a'i bersonoliaeth. Rhewch feddyliau a theimladau'r cymeriad oddi mewn i amlinelliad y cymeriad, a rhewch ffeithiau amdanynt y tu allan i'r amlinelliad. Fel arfer, bydd pob gair ar y tu allan yn perthyn i air y tu mewn (felly mae'r cymeriad yn gwneud hyn am ei fod yn teimlo fel hyn).
9. Dyluniwch fyd cymeriad penodol:
 - pa ddillad mae'n gwisgo.
 - beth yw ei ddiddordebau
 - sut beth yw ei gartref neu'i ystafell wely.
 - pwy yw ei deulu a'i ffrindiau.
 - beth yw ei gefndir.
 - ble mae'n byw.



10. Gallai'r dysgwyr ysgrifennu frawddeg am bob llun llonydd ac yna defnyddio cysyllteiriau i gysylltu bob brawddeg at ei gilydd. Byddai pob llun yn cyfateb i frawddeg y mae'r disgyblion yn ei hysgrifennu ac wedyn caiff y cysyllteiriau eu defnyddio i gysylltu pob llun.
11. Rhewch becyn o eiriau i bob bwrdd a gofynnwch iddynt weithio gyda'i gilydd i benderfynu ar y deg gair gorau i ddisgrifio'r llun llonydd.
12. Defnyddiwch ap *Book Creator* i greu llyfr sain i ddisgrifio'r hyn sy'n digwydd yn y lluniau llonydd. Gellir yna creu llyfr llafar drwy ddisgrifio'r hyn sy'n digwydd yn y llun. Gall dysgwyr mwy abl ysgrifennu disgrifiadau i gyd-fynd a phob llun. Gall dysgwyr llai abl ddefnyddio llai o luniau.
13. Gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd ganddyn nhw am y ffilm, gallai'r dysgwyr ddylunio a chreu setiau ffilm wedi'u gwneud o focsys esgidiau – mae canllaw pellach yn yr adnodd hwn – www.intofilm.org/resources/126 Fel arall, gallai'r dysgwyr lunio portffolio digidol i adlewyrchu eu syniadau ynglŷn â ble mae'r ffilm wedi'i gosod, gan ei anodi â gwybodaeth am leoliadau maen nhw wedi ymchwilio iddynt. Os mai addasiad o lyfr yw'r ffilm, gallent seilio hyn ar ran o'r llyfr sy'n cael ei darllen yn y dosbarth.
14. Gan weithio mewn grwpiau, bydd y dysgwyr yn creu arwyddgan i'r ffilm yn seiliedig ar yr hyn maen nhw'n gwybod. Dylai'r arwyddgan gyflwyno'r cymeriadau, rhoi awgrym o'r stori, a defnyddio synau i gyfleu arddull neu genre y ffilm. Gallent ei recordio ar lechen gan ddefnyddio samplau neu recordio synau ar offerynnau. Gall yr adnodd hwn ar sain fod yn ganllaw www.intofilm.org/resources/1216
15. Dewiswch glipiau ffilm o wahanol gyfnodau a gwledydd. Gosodwch dasgau i'r dysgwyr i nodi beth sy'n wahanol yn y rhain i'r ffilm maen nhw'n ei gwyllo, gan eu hannog i ystyried iaith, arddull, thema a chymeriad.

Gallan nhw wneud diagram Venn yn amlinellu gwahaniaethau a thebygrwydd yn un o'r meysydd hyn.

16. Gofynnwch i bob myfyriwr gymryd eu tro i actio fel un o'r cymeriadau mewn gweithgaredd y gadair boeth. Anogwch eraill i'w holi.
17. Defnyddiwch bropiau yn ymwneud â'r ffilm. Gofynnwch i'r dysgwyr eu rhestru ar bapur A3 ac egluro pam eu bod yn berthnasol i'r stori. Sut maen nhw'n effeithio'r stori? Petai'r cyfarwyddwr ddim eu defnyddio, beth fyddai'r gwahaniaeth?
18. Gall dysgwyr greu eu sain eu hunain i gyd-fynd â'r ffilm drwy ddefnyddio'r ap *Garageband*. Drwy wneud hyn bydd angen iddyn nhw fedru egluro pam eu bod wedi dethol synnau arbennig e.e. I adlewyrchu emosiynau'r cymeriad. Am gymorth pellach ar sut i fynd ati, ewch i'r adnodd www.intofilm.org/resource/83





Ysgrifennu

Defnyddio darn byr o'r ffilm

Amcanion dysgu'r cwricwlwm:

- Ysgrifennu'n ddychmygus mewn ymateb i'r prif syniadau a'r wybodaeth mewn ffilm (leithwedd gyffredinol athrawon/FfLIC – i ddiben)
- Trefnu syniadau yn baragraffau (FfLIC)
- Golygu, ailddrafftio a myfyrion ar waith ysgrifenedig (FfLIC)
- Dethol a chyfuno testun a delweddau i ddatblygu ymateb personol i ffilm (FfCD – i ddiben)
- Datblygu'r defnydd o eirfa anturus a dychmygus (FfLIC)
- Arbrofi â strwythur brawddeg (FfLIC)

Amcanion dysgu ffilm:

- Defnyddio ysgogiadau gweledol i ddatblygu disgrifiad dychmygus
- Ysgrifennu'n greadigol am leoliad a chymeriadau
- Nodi amrywiaeth o opsiynau a'u canlyniadau posib mewn ymateb i sefyllfa o gyfyng-gyngor mewn ffilm




Taflenni gwaith


Taflen waith synhwyrâu'r cymeriadau
(tudalen 26)

Olwyn ganlyniadau (tudalen 27)

Gweithgareddau

1. Chwaraewch glip byr o'r prif gymeriad sy'n dangos rhyw agwedd ar ei gymeriad/chymeriad.
2. Dosbarthwch neu ddangoswch un llun o'r cymeriad i bob dysgwr a gofynnwch iddyn nhw ddefnyddio **taflen waith Synhwyrâu** ar **dudalen 26** i ysgrifennu brawddeg neu ddwy (neu eiriau, yn achos dysgwyr llai galluog) am bob synnwyr ynglŷn â'r cymeriad a sut beth yw'r byd o'i (h)amgylch.
3. Bydd dysgwyr yn ysgrifennu paragraff cyfan i ddisgrifio'r sefyllfa y mae'r cymeriad ynddi, gan ganolbwyntio ar ei synhwyrâu. Hynny yw, yr holl waith maen nhw newydd ei wneud.
4. Dewch o hyd i bwynt o benderfyniad allweddol yn y ffilm a dangoswch glip hyd at yr ennyd y mae'n rhaid i'r cymeriad wneud y penderfyniad, gan wneud yn siŵr eich bod yn stopio cyn y canlyniad. Meddylwch am yr hyn ddylai'r cymeriad(au) wneud, trafodwch mewn parau, a rhannwch. Gallai hyn gael ei ymestyn i gynnwys rhagor o ddisgyblion mewn dadl.
5. Defnyddiwch **daflen waith Olwyn ganlyniadau** ar **dudalen 27** i lenwi'r cylch mewnol ag opsiynau a'r cylch allanol â chanlyniadau cadarnhaol a negyddol pob opsiwn. Efallai y bydd angen mwy o gymorth ar ddysgwyr llai galluog i wneud hyn.
6. I ddilyn gweithgaredd yr olwyn ganlyniadau, gall y disgyblion ysgrifennu erthygl bapur newydd neu ddarn mewn dyddiadur ar y sefyllfa.
7. Gall y dysgwyr greu cardiau trymp i'r gwahanol gymeriadau gyda'u categorïau eu hunain. Gall defnyddio ystadegau ar gyfer pob cymeriad wella sgiliau rhifedd yn y gweithgaredd hwn.
8. Gan ddefnyddio lluniau llonydd o'r ffilm, dechreuwch drwy ddangos darn mewn golwg agos iawn. Gofynnwch i'r dysgwyr ysgrifennu'r hyn sydd i'w weld yn y llun. Wedyn pellhewch (zoom out) a gofynnwch iddyn nhw ysgrifennu'r hyn sydd i'w weld ar bob cam, gan orffen gyda'r llun cyfan. Anogwch nhw i nodi a defnyddio technegau iaith ddisgrifiadol fel trosiad, cyffelybiaeth a phersonoliad.
9. Opsiwn arall fyddai i'r dysgwyr ysgrifennu sgriptiau yn seiliedig ar y set o luniau llonydd. Byddai hyn yn cynnwys cyfarwyddo'r cymeriadau o ran sut i symud neu rymgweithio yn yr olygfa.
10. Bydd y dysgwyr yn crynhoi beth maen nhw'n ei feddwl o'r ffilm a pham. Bydd pob un yn ysgrifennu un datganiad am y ffilm ar sail yr hyn maen nhw'n ei wybod hyd yma, e.e. *"Rwy'n credu mai comedi yw'r ffilm"* neu *"Mae'r ffilm wedi'i gosod yng Nghymru yn y 1990au"*. Gallai hyn gael ei droi i fod yn gêm ganlyniadau. Bydd un dysgwr yn ysgrifennu agoriad y stori, yn sgrwnsio'r papur ac yn ei daflu i'r dysgwr nesaf sy'n ysgrifennu'r darn nesaf, ac yn y blaen. Bydd y dysgwr olaf yn darllen y cyfan i'r dosbarth.
11. Bydd y dysgwyr yn ysgrifennu adolygiadau byr o'r ffilm, wedi'u hanelu at rai sydd heb ei gweld, gan wneud yn siŵr eu bod yn disgrifio'r hyn roedden nhw'n hoffi am y ffilm a pham. Ni ddylen nhw roi unrhyw wybodaeth a fyddai'n difetha stori'r ffilm. Darperir mwy o gyngor am hyn yn yr adnodd : www.intofilm.org/resources/108





Cynllunio a Chyflwyno

Gwneud eu ffilmiau eu hunain

Amcanion dysgu'r cwricwlwm:

- Defnyddio strwythur (e.e. bwrdd stori / mynydd stori i gynllunio'r ysgrifennu (FfLIC)
- Defnyddio sgiliau cynllunio i greu amlinelliaid ar gyfer ffilm fer (leithwedd gyffredinol athrawon)
- Defnyddio strwythur a geirfa briodol i gynllunio'r ysgrifennu (FfLIC – ysgrifennu i ddiben)
- Creu cynllun ysgrifenedig (FfCD)
- Gwerthuso cynnwys a chynllun gwaith (FfCD)

Amcanion dysgu ffilm:

- Datblygu syniadau dychmygus ar gyfer ffilm
- Nodi cymeriadau, gweithredoedd, digwyddiadau, synau a phropiau sydd eu hangen ar gyfer dilyniant ffilm
- Trefnu saethiadau ffilm i greu ffilm resymegol sydd â dilyniant da

Taflenni gwaith

Mynydd stori (tudalen 28)

Bwrdd stori (tudalen 29)

Taflen siotiau camer (tudalen 30-31)

Gweithgareddau

1. Cyflwynwch y dysgwyr i'r 5 elfen i greu syniad stori:

Pobl

Problem

Lle



Panig

Heddwch



Gallwch wneud hyn ar ffurf ysgrifennu ar y cyd gan ddefnyddio cardiau brawddeg er mwyn iddynt adeiladu syniad eu stori.


2. Cyflwynwch y dysgwyr i'r **siotiau camera** ar **dudalen 30-31**. Gofynwch iddyn nhw actio pob un mas o berspectif camera gwahanol er mwyn eu hannog i feddwl am y siotiau gorau i'w defnyddio.
3. Crewch 'ffilm frawddegau' lle mae pob disgybl yn ysgrifennu brawddeg i gynrychioli rhan o'r stori. Caiff y brawddegau wedyn eu hadrodd a chaiff y frawddeg honno ei hactio. Wedi iddyn nhw gwblhau'r weithgaredd hon rhwch gyfle iddyn nhw drafod yr hyn maent wedi ei ddysgu.
4. Bydd y dysgwyr wedyn yn dewis genre/thema o het neu focs ac yn gweithio mewn grwpiau i feddwl am syniadau ar gyfer ffilm. Byddai modd defnyddio ap *Wordle* i gasglu syniadau. Gweithgaredd dilynol fyddai troi'r themâu sy'n codi yn ddelwedd *Wordfoto*.
5. Dewiswch thema ar gyfer y ffilm; beth am greu map meddwl ar sail thema'r ffilm a wylwyd ar gyfer y gweithgareddau eraill a rhwch gyfle i'r dysgwyr ehangu eu dealltwriaeth o'r 2LL, 2S, 2C er mwyn eu hannog i baratoi ar gyfer eu ffilmiau eu hunain. Gellir edrych ar pob 6 elfen neu mewn grwpiau..

- **Cymeriadu** - datblygu proffiliau o gymeriadau (ar sail y weithgaredd Rôl ar y Wal).
- **Lliw** - beth am roi siartiau paent i'r dysgwyr, a rhwch air iddynt i gynrychioli'r arlliw goleuaf. Bydd y dysgwyr wedyn yn defnyddio'r thesawrws i enwi'r arlliwiau yn ôl eu dwyster, e.e. cynnes, poeth, crasboeth, chwilboeth. Beth am gysylltu'r lliwiau a'r thema.
- **Lleoliad** - beth am greu byrddau i gynrychioli'r awyrgylch a rhestr bropiau er mwyn sicrhau eu bod wedi meddwl am bopeth i greu'r naws orau.
- **Sain** - trafodwch y mathau gwahanol o sain yr hoffon nhw eu defnyddio – deialog ar ffurf sgript, sain arbennig. Ydyn nhw am greu eu sain eu hunain drwy weithgaredd Foley.
- **Camera** - ail gyflwynwch a thrafodwch siotiau camerau a'u pwrpas er mwyn eu hannog i feddwl am wahanol siotiau a pam y dylid eu defnyddio.
- **Story** - torrwyd eich bwrdd stori yn rhannau a'u cymysgu ac yna eu rhoi yn ôl yn y drefn gywir. Oes rhywbeth ar goll? Ydy'r stori yn glir?



6. Bydd pob grŵp yn actio crynodeb byr o'r hyn yw ei ffilm ond heb ddatgelu'r diwedd glo. Heriwrch nhw i wneud hyn mewn un munud!
7. Defnyddiwch fframwaith 'blychau' er mwyn i'r dysgwyr ddatblygu mwy o strwythur i'r stori.
8. Gan weithio mewn grwpiau, dylai'r dysgwyr benderfynu ar syniad am ffilm. Defnyddiwch **Dempled mynydd stori** ar **dudalen 28** i roi trefn ar yr agoriad, yr adeiladu, y broblem, y datrysiaid a'r diwedd glo. Gall hyn adeiladu ar 5 elfen y stori neu mae modd ei wneud fel gweithgaredd ar wahân. Gall hyn gael ei ddefnyddio i wirio cyfeiriad cyffredinol y ffilm.
9. Gall **Templed map stori** ar **dudalen 29** gael ei ddefnyddio i ddatblygu'r syniad. Dylai pob paragraff o'r stori fod yn olygfa. Dylai'r dysgwyr ddefnyddio gwahanol saethiadau camera ym mhob golygfa, os yn bosib.
10. Bydd y disgyblion yn cyflwyno crynodebau o'u ffilmiau i'w gilydd, a bydd disgyblion eraill yn rhoi beirniadaeth ohonynt. Gallai hyn gael ei wneud fel gweithgaredd yn arddull 'Dragon's Den'. Rhaid i'r cyflwyniad gynnwys crynodeb o'r plot, cymeriadau, lleoliad, amserau, cyllideb a'r tîm sydd ei angen i gynhyrchu'r ffilm. Bydd eu cyd-ddisgyblion yn rhoi adborth ar eu syniadau hyd yma. Bydd y dysgwyr wedyn yn ystyried yr adborth wrth ddatblygu eu syniadau ymhellach.





Creu Ffilm a Dathlu

Gwneud eu ffilm eu hunain

Amcanion dysgu'r cwricwlwm::

- Creu, dethol a chyfuno lluniau a synau i greu ffilm (FfCD – i ddiben)
- Archwilio materion drwy chwarae rôl (FfLIC)
- Rhannu barn a safbwyntiau yn ymateb i'w gwaith eu hunain a gwaith eraill (FfCD)

Amcanion dysgu ffilm:

- Nodi mathau o saethiadau a'u honglau
- Arbrofi ag amrywiaeth o effeithiau digidol i greu saethiad ffilm priodol
- Dilyn bwrdd stori ffilm i greu ffilm
- Defnyddio, golygu a gwella cynllun i greu ffilm
- Arbrofi ag adnoddau digidol i greu ffilm
- Cyfuno a golygu delweddau symudol a sain i greu ffilm
- Defnyddio sgiliau digidol i greu ffilm fer


Taflenni gwaith

Siotiau Camera (tudalen 30-31)

I gael syniadau gwersi manylach, defnyddiwch yr adnodd creu ffilm sydd ar gael fan hyn: www.intofilm.org/resources/1381 Gall hwn gael ei rannu'n sawl sesiwn i roi profiad dysgu dyfnach.

Gweithgareddau

1. Dechreuwch â gweithgaredd taflu syniadau gan ofyn i'r disgyblion pa swyddi gwahanol sydd i'w cael ym maes creu ffilm. Gofynnwch iddyn nhw nodi pa sgiliau allai fod eu hangen ym mhob rôl ac ysgrifennu'r rhain wrth ymyl teitlau'r swydd. Cyn iddyn nhw ddechrau creu unrhyw ffilmiau, dylai pob grŵp bennu rôl i bob disgybl. Mae rhagor o weithgarwch i'w gweld yn adnodd *Gyrfaedd mewn Ffilm: Cynradd* www.intofilm.org/resources/102
2. Mae gan Into Film adnoddau creu ffilm cynhwysfawr yn y Gymraeg ar ei gwefan www.intofilm.org a gellir defnyddio'r taflenni gwaith penodol www.intofilm.org/resources/1193
3. Defnyddiwch ap creu ffilm i recordio'r ffilm gan gynnwys deialog o sain Foley. Gall dysgwyr mwy galluog (neu'r holl ddysgwyr os oes gennych yr amser i'w harwain) greu sleidiau teitl, clodrestr a sylwebaeth y cyfarwyddwr. Defnyddiwch yr adnodd hwn ar drac sain yn ganllaw www.intofilm.org/resources/1029
4. Cynhaliwch drafodaethau am hawlfraint cerddoriaeth wrth greu trac sain i'ch ffilm. Gall adnodd Creating Movie Magic gael ei ddefnyddio i gynorthwyo'r gweithgareddau hyn www.intofilm.org/resources/34 a Exploring Copyright for Clubs www.intofilm.org/resources/1089
5. Gallai'r disgyblion hefyd gynnwys elfennau o ganu a dawnsio yn eu ffilm er mwyn creu sioe gerdd neu ddefnyddio clipiau archif i greu ffilm ddogfen ag iddi agwedd hanesyddol.
6. Dyluniwch bosteri i hysbysebu'r ffilm. Dylai posteri a hysbysebion go iawn gael eu defnyddio yn sail i hyn, fel bod y dysgwyr yn deall y fformat cyffredinol sy'n cael ei ddefnyddio, gan gynnwys teitl, clodrestr a delweddau. Dylai'r dysgwyr ystyried defnyddio darn ysgrifenedig sy'n dwyn perswâd yn y gweithgaredd hwn.
7. Gallai ffug gyfweiliadau neu *junket* ffilm gael eu defnyddio i ddysgwyr ymateb i gwestiynau am eu gwaith creadigol a gwerthuso ei lwyddiant. Gall y rolau gwahanol gael eu chwarae gan wahanol blant, e.e. actorion, cyfarwyddwyr, newyddiadurwyr. Gellir dod o hyd i enghreifftiau addas wrth fynd i'r sianel You Tube Get Into Film www.youtube.com/user/getintofilm
8. Cynhaliwch ddigwyddiad i ddangos y ffilmiau. Rhwng rolau gwahanol i wahanol ddysgwyr, gan gynnwys tocynnau, trefnu'r seddau, paratoi neu ddarparu byrbrydau. Popeth i'w wneud yn brofiad sinematig go iawn! Gwahoddwch gynulleidfâ o blith aelodau'r ysgol a/neu'r gymuned. Gallech gynnal seremoni wobrwyo, hyd yn oed!




9. Defnyddiwch ap gwneud ffilm er mwyn recordio'r ffilm gan gynnwys y deialog neu foley. Gall dysgwyr mwy abl wneud sleids credits neu sylwadau gan y cyfarwyddwr. Defnyddiwch yr adnodd yma am fwy o gyngor www.intofilm.org/resources/1029
10. Gall gweithgareddau rhifedd fod yn gysylltiedig â gwerthu tocynnau – cyfrifo'r incwm i gwrdd â'ch costau, elw a cholled ar ddangosiadau. Er enghraifft, faint o docynnau a lluniaeth sy'n rhaid eu gwerthu er mwyn gwneud elw? Yn dilyn y digwyddiad, gallai'r dysgwyr ysgrifennu a chynnal arolygon i gasglu barn eu cyd-ddisgyblion ar y ffilmiau. Gallai hyn gael ei gyflwyno'n ôl yn y dosbarth ar ffurf adroddiad, gan gynnwys graffiau.
11. Gall y dysgwyr ysgrifennu adolygiad am y ffilm neu am ffilmiau eu gilydd a gellir anelu i greu rhai byr ar gyfer gwefannau cymdeithasol, felly 140 cymeriad yn unig!

Gall y dysgwyr ysgrifennu adolygiad o'u hoff ffilm o ddigwyddiad dangos ffilmiau'r dosbarth/ysgol. Gallan nhw roi sgôr i'r ffilmiau, a rhoi rhesymau am y sgôr. Gallan nhw droi wedyn at sgorau'r BBFC a gweld a oedd eich sgorau chi'n cyd-fynd â nhw.

Gweithgaredd sgorau ar-lein:

www.cbbfc.co.uk a www.cbbfc.co.uk/rate-trailer

Canllaw sgorau'r CBBFC: www.cbbfc.co.uk/sites/cbbfc/files



Sai'n gweld!

Byddwch yn gwrando ar darn o ffilm – yn clywed ond ddim yn gweld. Gwrandewch yn astud a nodwch yr hyn ry'ch chi'n ei glywed ar y tabl isod. Beth sy'n digwydd o fewn yr olygfa - beth allwch chi weithio allan o glywed y sain yn unig? Ydych chi'n clywed sain sy'n dynodi gwahanol gymeriadau? Beth am ddarlunio'r hyn ry'ch chi'n ei glywed. Beth am wrando ar y darn sawl gwaith I weld os ydych chi'n clywed gwahanol bethau bob tro.

**Beth ydych chi'n ei glywed?
Cerddoriaeth? Lleisiau? Unrhywbeth arall?**



**Beth ydych chi'n meddwl y byddwch chi'n ei weld
pan yn gwylio'r clip? Disgrifiwch y cymeriadau a'r lleoliad?
Ble a phryd y lleolwyd y darn?**




Ysbrydolwyd y taflen waith yma gan yr adnodd 'Screening Shorts' www.screeningshorts.org.uk/pdf/sound-on-vision-off-worksheet.pdf

Rôl ar y wal

Ysgrifenwch ar y ffigwr isod

- Nodwch **emosiynau**'r cymeriad tu mewn i siap y person
- Nodwch deimladau a meddyliau'r cymeriad tu fewn i'r siap ac yna ffeithiau ar y tu allan. Dylai'r hyn ry'ch chi'n ei nodi o ran ffeithiau gyd-fynd gyda'r geiriau ar y tu fewn.



Dywed wrthyf

*Athro i osod llun llonydd
o'r ffilm fan hyn*

Beth gallaf weld?



.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Gallaf ddod i'r casgliad...



.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Taflen Waith Ditectif

Defnyddiwch yr ysgogiadau canlynol i ddarganfod beth bynnag a allwch am y ffilm.



Ffilm am beth yw hi?

[illegible]

Pam eich bod chi'n meddwl hyn?

[illegible]

**Pa gliwiau sydd gennych?
Lluniadwch luniau a'u
hanodi neu'u disgrifio.**

Sut ydych chi'n meddwl y bydd yn dod i ben?

[illegible]

Echel Emosiwn


1. Nodwch bump digwyddiad o'r ffilm yn y bocsys yng nghanol y graff
2. Ychwanegwch symbolau o 3 emosiwn arall y mae'r cymeriadau yn eu teimlo yn ystod y ffilm
3. Nodwch emosiynau'r cymeriadau yn ystod gwahanol rhannau o'r ffilm

Nodwch yr Emosiynau yma


Nodwch ddigwyddiadau penodol yma

Cymeriad

Defnyddiwch lun o gymeriad. Nodwch frawddeg neu ddau am synhwyrâu'r cymeriadau a disgrifiwch y byd o'u cwmpas.

	=	
	=	
	=	
	=	

Olwyn Ganlyniadau



Stori Mynydd

1) Y Dechrau

Cyflwynwch y cymeriad a disgrifiwch y lleoliad. Beth fydd eich golygfa gyntaf?

2) Datblygiad y stori

Beth sy'n digwydd? Pa gliwiau allwch chi eu rhoi? Beth sy'n cael ei ddweud? Sut mae modd creu cyffro?

3) Y Broblem

Gall rhywbeth fynd o'i le! Oes rhywbeth yn digwydd sy'n creu cynnwrf ac yn newid y stori? Oes dadlau neu drychineb?

4) Canlyniad / Casgliad

Oes modd dod a phopeth at ei gilydd fel bod yna ddiwedd glo i'r stori? Sut gall y cymeriadau oresgyrn y broblem?

5) Y Diwedd

Oes diwedd glo hapus? Oes neges i'r stori? Ydy'r cymeriadau wedi newid? Pa fath o argraff ydych chi eisiau ei gael ar eich cynulleidfa?

The worksheet is designed for students to analyze a story using the 'Stori Mynydd' (Mountain Story) framework. It consists of five main sections, each with a header box containing guiding questions and a large box for student notes. A graphic of a mountain range with yellow arrows indicates the progression from the beginning to the end of the story.

Bwrdd Stori

NODIADAU:	NODIADAU:	NODIADAU:	NODIADAU:


NODIADAU:	NODIADAU:	NODIADAU:	NODIADAU:

Siotiau camera


Tudalen 1/2

Saethiad Sefydlu


Yn gosod yr olygfa drwy ddangos y lleoliad o gryn bellter i'r gwylwr weld ble mae'r cyfan yn digwydd.

**Saethiad Hir**

Yn dangos yr unigolyn o'i gorun i'w sawdl. Defnyddir i ddangos y cymeriad mewn perthynas â'r pethau sydd o'i gwmpas.

**Saethiad Canol**

Yn dangos y cymeriad o'i ganol i'w gorun. Defnyddir ar gyfer mynegiant ar yr wyneb ac osgo (iaith) y corff.




Siotiau camera


Tudalen 2/2

Dros yr Ysgwydd

Pan fydd y camera wedi ei osod tu ôl i un cymeriad a bod y cymeriadau neu'r pethau eraill i'w gweld o'i flaen. Defnyddir yn aml mewn cyfweiliadau neu i ddangos i'r gynulleidfa beth ydy'r berthynas rhwng y cymeriadau, gwrthrychau neu'r lleoliad.

**Saethiad Agos**

Yn dangos y cymeriad o'r ysgwyddau i'r corun. Defnyddir i gofnodi mynegiant sydd ar wyneb y cymeriad.

**Saethiad Agos lawn**

Lle mae llun o'r gwrthrych neu ran o'r corff yn llanw'r ffrâm. Defnyddir i ddwysáu'r emosiwn.

